Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol y Bryn**
**Heol Gelli**
**Bryn**
**Llanelli**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA14 9TT**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2012**

**gan**

**Dorothy Morris**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol y Bryn wedi ei lleoli yn nhref Llanelli yn Sir Gaerfyrddin, ac mae'n gwasanaethu ardal i ogledd ddwyrain y dref. Daw bron yr holl ddisgyblion o'r ardal gyfagos a ddisgrifir gan yr ysgol fel un sydd yn anad dim yn ddifreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd. Mae'r ardal i'r de o'r ysgol wedi ei dynodi'n ardal Cymunedau'n Gyntaf; mae tua hanner y disgyblion yn byw yn yr ardal hon. Mae niferoedd y disgyblion wedi codi'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae 244 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed yn yr ysgol. Dosberthir y disgyblion i saith dosbarth oed sengl, a dosbarth meithrin sydd yn cynnwys disgyblion llawn amser a rhan amser. Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn llawn amser yn ystod y tymor maent yn cyrraedd eu pen blwydd yn bedair oed.

Mae gan ryw 28% o'r disgyblion yr hawl i brydau ysgol am ddim, ffigur sydd yn uwch na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru gyfan. Dynodwyd 32% o'r disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r canran hwn hefyd yn uwch nag un yr awdurdod lleol a Chymru. Mae pedwar plentyn yn yr ysgol a ofelir amdanynt gan yr awdurdod lleol. Daw bron yr holl ddisgyblion o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith yr aelwyd. Nid oes unrhyw ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol.

Ers yr arolygiad diwethaf yn 2006, mae uwch arweinyddiaeth yr ysgol wedi newid gyda dirprwy a phennaeth newydd yn cael eu penodi yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Penodwyd y pennaeth presennol ym Medi 2008.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol y Bryn yn 2011 yn golygu fod y gyllideb fesul disgybl yn £3560. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin yw £18947 a'r isafswm yw £3114. Ysgol y Bryn yw'r 54$^{fed}$ o'r 110 o ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yn nhermau ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol.

Y cryfderau yw:

- gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd cadarn neu well yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- cynigir ystod dda o brofiadau dysgu i'r disgyblion;
- mae'r addysgu'n dda ar y cyfan; ac
- mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad a ddarperir yn cael effaith dda ar safonau disgyblion a'u lles.

Fodd bynnag:

- mae canlyniadau disgyblion wedi amrywio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ond yn gyffredinol, nid ydynt yn cymharu'n ffafriol gydag ysgolion tebyg eraill;
- mae llai o ddisgyblion yn cyflawni'r lefelau uwch, yn enwedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2; ac
- mae mentrau newydd yn cael eu datblygu ond mae llawer ohonynt heb eto wreiddio'n llawn.

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwelliant yn dda oherwydd:

- fod gan y pennaeth weledigaeth eglur ar gyfer datblygiad pellach yr ysgol sydd yn ffocysu ar wella safonau;
- mae tîm o staff addysgu a chynnal ymroddedig;
- defnyddir hunan arfarnu fel arf effeithiol ar gyfer gwelliant ysgol;
- mae mentrau penodol yn peri gwelliannau mesuradwy mewn agweddau ar y dysgu; ac
- yn yr asesiadau athrawon mwyaf diweddar, ceir tystiolaeth o welliant sylweddol yn safonau cyflawniad y disgyblion.

## Argymhellion

Er mwyn datblygu ymhellach, mae angen i'r ysgol:

A1 adeiladu ar y gwelliannu yng nghyflawniadau'r disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol a gwella perfformiad y disgyblion mwyaf galluog ymhellach.

A2 ymestyn medrau siarad, ysgrifennu a rhifedd y disgyblion ar draws y cwricwlwm;

A3 cryfhau medrau Cymraeg ail iaith y disgyblion a datblygu eu hyder wrth siarad Cymraeg mewn amrediad o gyd-destunau;

A4 sicrhau cysondeb yn ansawdd yr adborth ysgrifenedig a gynigir i ddisgyblion a datblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu ymhellach, ac

A5 adolygu lleoliad staff er mwyn diwallu anghenion dysgu presennol y disgyblion mewn dosbarthiadau mawr.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd cadarn neu well o'u mannau cychwyn.

Ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol, mae canlyniadau disgyblion wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf ond, yn gyffredinol, nid ydynt yn cymharu'n ffafriol gyda'r rhai mewn ysgolion tebyg eraill. Yn 2011, mae gwelliant arwyddocaol yn y canlyniadau ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol. Maent yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a rhai Cymru gyfan.

O'u cymharu gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru, yn seiliedig ar y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim, mae canlyniadau 2011 yn gyffredinol yn ffafriol. Yn y tair blynedd cynt, maent yn amrywio ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol.

Tros gyfnod o bedair blynedd, mae canlyniadau'r disgyblion mwy galluog yn gyffredinol is na'r teulu o ysgolion ond yn dangos gwelliant yng nghanlyniadau 2011. Yng nghyfnod allweddol 1, nid oes unrhyw batrwm rheolaidd o wahaniaeth rhwng canlyniadau'r bechgyn a rhai'r merched. Yng nghyfnod allweddol 2, yn gyffredinol, mae canlyniadau'r merched yn well na rhai'r bechgyn. At ei gilydd, nid yw disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â'u cymheiriaid. Dengys data'r ysgol fod disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn gwrando'n ofalus ar eu hathrawon ac ar ei gilydd. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae ychydig o ddisgyblion yn siarad yn hyderus gan ddefnyddio ystod dda o eirfa. Yn gyffredinol, ymateba'r disgyblion yn barod i gwestiynau gan fynegi eu hunain yn glir. Fodd bynnag, nid ydynt yn ymateb mewn modd estynedig yn ddigonol.

Yn y ddau gyfnod allweddol, darllena'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gymwys gyda'r disgyblion mwy galluog yn darllen yn rhugl a gyda dealltwriaeth dda. Ysgrifenna'r disgyblion i amrediad o ddibenion. Maent yn gynyddol yn ysgrifennu'n estynedig ac yn y gwaith gorau, mae ansawdd yr ysgrifennu yn dda ac mae sillafu ac atalnodi ar y cyfan yn gywir. Yn gyffredinol, mae ansawdd yr ysgrifennu a'r sillafu yn datblygu yn fwy anwastad. Mae safonau medrau cyflwyno a llawysgrifen y disgyblion yn anghyson ar draws yr ysgol.

Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion ddefnydd da iawn o ystod o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gefnogi a gwella eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Gwnânt ddefnydd priodol o fedrau mathemategol mewn cyd-destunau penodol ond nid ydynt yn ymestyn eu medrau'n ddigonol wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn caffael ystod o fedrau dysgu ehangach. Yn yr arfer orau, gwna'r disgyblion ddefnydd effeithiol iawn o'u medrau meddwl, ymholi ac ymchwiliol yn eu hastudiaeth o'r planedau. Mae eu hannibyniaeth fel dysgwyr yn datblygu'n dda mewn agweddau megis technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ond nid yw mor gyson ar draws pynciau eraill y cwricwlwm. Mae medrau creadigol disgyblion

yn datblygu'n dda mewn pynciau megis celf a cherddoriaeth gydag enghreifftiau o waith o safon uchel.

Mae safonau yn y Gymraeg yn ddigonol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio ac ymateb i gyfarchion yn y Gymraeg. Mewn gwersi Cymraeg, ymateba'r disgyblion yn gywir i gwestiynau gan ddefnyddio patrymau brawddeg mwy cyfarwydd. Mae disgyblion hŷn yn benodol yn defnyddio eu geirfa ddatblygol yn gymwys i gyfranogi mewn gweithgareddau chwarae rôl. Yn gyffredinol, nid oes gan ddisgyblion ddigon o afael o ystod o eirfa i gymryd rhan mewn sgyrsiau syml y tu allan i wersi. Gwna'r mwyafrif o ddisgyblion ddefnydd cynyddol o'u medrau darllen ac ysgrifennu sylfaenol i gwblhau tasgau mewn gwersi gyda chywirdeb rhesymol.

**Lles: Da**

Teimla'r disgyblion yn ddiogel ac maent yn gwybod sut i geisio cymorth yn yr ysgol gydag unrhyw broblemau. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd diet ac ymarfer wrth ddatblygu dull iachus o fyw.

Mae ymddygiad yn ystod gwersi ac adeg chwarae yn dda ac mae disgyblion yn gwrtais tuag at ei gilydd ac oedolion. Maent yn mwynhau bod yn yr ysgol ac mae'r mwyafrif yn deall pwysigrwydd presenoldeb da. Mae cyfraddau presenoldeb yn gwella'n gyson ac maent ar 93% ar hyn o bryd, sydd yn cymharu'n ffafriol gydag ysgolion o gefndiroedd tebyg a'r awdurdod lleol.

Mae’r disgyblion yn chwarae rhan bwysig ym mywyd y gymuned leol a cheir cyswllt cryf gyda llawer o sefydliadau, asiantaethau, busnesau ac unigolion lleol. Mae'r disgyblion yn elwa'n fawr o'r profiadau hyn ac yn datblygu ystod dda o fedrau cymdeithasol sydd yn eu paratoi'n effeithiol ar gyfer bywyd y tu allan i'r ysgol.

Arddangosa aelodau o'r cyngor ysgol ymagweddau aeddfed ac maent yn trefnu gweithgareddau i godi arian ar gyfer elusennau, megis 'Comic Relief'. Mae'r cyngor ysgol, comisiynwyr plant, llysgenhadon a'r pwyllgorau eco yn dechrau cyfrannu tuag at y penderfyniadau sydd yn effeithio ar fywyd ysgol. Dengys y rhan fwyaf o ddisgyblion ddiddordeb a chymhelliant amlwg yn eu dysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Darpara’r ysgol ystod briodol o weithgareddau dysgu trwy gwricwlwm eang a chytbwys sydd yn diwallu'r gofynion statudol. Yn gyffredinol, caiff y gweithgareddau eu strwythuro'n dda i ganiatáu disgyblion i atgyfnerthu ac adeiladu ar eu dysgu blaenorol. Mae'r athrawon yn cynllunio profiadau diddorol ac amrywiol, fodd bynnag, nid yw tasgau bob amser yn cynnig y lefel briodol o her i'r disgyblion, yn enwedig i'r rhai mwy galluog.

Mae'r hyrwyddo o'r fformat sgiliau ar gyfer cynllunio’r cwricwlwm yn nodwedd gadarnhaol. Ceir darpariaeth dda iawn i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu’r disgyblion ac maent yn hyderus wrth ddefnyddio'r ystod eang o adnoddau sydd ar gael. Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd sylfaenol ond mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd mewn meysydd cwricwlaidd eraill yn fwy anghyson ar draws yr ysgol.

Gwna'r ysgol ddarpariaeth briodol ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg. Caiff ymagweddau cadarnhaol eu meithrin, ond mae'r defnydd o'r iaith mewn sefyllfaoedd mwy anffurfiol ac mewn meysydd cwricwlaidd eraill yng nghyfnod cynnar ei ddatblygiad. Ceir cyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu am eu hardal ac am hanes a diwylliant Cymru.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth dda ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy. Caiff dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang ei hyrwyddo'n effeithiol trwy'r cwricwlwm a phrosiectau penodol megis 'Diwrnodau Rhyngwladol'.

### Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn dda ar y cyfan. Defnyddia'r athrawon ystod dda o strategaethau dysgu, ceir defnydd effeithiol o adnoddau ac mae'r rhan fwyaf o wersi yn datblygu ar gyflymder da. Rhennir amcanion y wers ar ddechrau sesiynau ac yn yr enghreifftiau gorau ailymwelir â'r nodweddion hyn ar ddiwedd y sesiynau. Yn yr ychydig iawn o sesiynau lle mae’r addysgu yn llai effeithiol, nid yw'r tasgau wedi eu cydweddu'n ddigon da i anghenion cyfredol y disgyblion ac mae gorddefnydd o daflenni gwaith fel rhan o'r broses dysgu. Ar draws yr ysgol ceir perthynas waith dda rhwng athrawon, staff cynnal a'r disgyblion.

Mae strategaethau effeithiol i asesu cynnydd disgyblion ac i osod targedau unigol. Cynhelir asesiadau ffurfiol fel rhan o raglen dreigl a chaiff y data ei ddadansoddi a'i ddefnyddio'n briodol i fonitro cynnydd a darparu cymorth ychwanegol i'r disgyblion. Mae'r adroddiadau i rieni yn darparu gwybodaeth dda ar gynnydd eu plentyn.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu datblygu yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau ond nid ydynt wedi gwreiddio'n ddigonol i gael effaith ar wella safonau'r disgyblion. Mae'r defnydd o bartneriaid darllen yn gweithio'n dda ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2. Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac, yn yr enghreifftiau gorau, caiff y ffyrdd ymlaen eu nodi'n eglur. Nid yw'r arfer yn gyson ar draws yr ysgol.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn darparu cymuned ofalgar iawn sydd wedi ei drefnu'n dda a lle mae pawb yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi. Caiff manteision byw yn iach eu hyrwyddo'n effeithiol ar draws y cwricwlwm a thrwy bolisïau priodol a'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r rhain yn cyfrannu'n dda tuag at ddatblygu perthnasau cadarnhaol a gwella ansawdd bywyd y disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae'r addysgu o addysg bersonol a chymdeithasol yn cael ei gynllunio'n dda a'i gynnwys ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion yn elwa o'r amrediad eang o asiantaethau allanol i wella'r gefnogaeth ac i ddarparu gwybodaeth ac arweiniad gwerthfawr.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu. Mae’r staff wedi derbyn hyfforddiant priodol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda iawn. Caiff anghenion disgyblion eu dynodi ar gyfnod cynnar a'u monitro trwy asesiadau rheolaidd. Mae'r staff cynnal wedi eu lleoli'n effeithiol i weithio gyda disgyblion unigol a grwpiau. Mae gan yr ysgol bartneriaethau da iawn gydag asiantaethau allanol arbenigol ac mae cydweithio yn sicrhau cefnogaeth fuan ac effeithiol i'r disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol sydd yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i'r holl ddisgyblion a lle rhoddir pwyslais ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'n cynnig amgylchedd diogel a chroesawgar i'r holl ddysgwyr. Ceir yma ethos cynhaliol a rhoddir llawer o bwyslais ar gydweithio a pharchu oedolion a phlant.

Adeiladwyd yr ysgol pedair blynedd yn ôl ac mae o ansawdd da. Mae adeiladau'r ysgol a'r ardaloedd tu allan wedi eu cynllunio a'u cynnal yn dda. Mae'r dosbarthiadau, y coridorau a'r prif ardaloedd derbyn wedi ei addurno i ddarparu amgylchedd dysgu ysgogol a rhyngweithiol. Mae'r adnoddau o ansawdd da ac wedi eu cydweddu'n dda i anghenion y disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth ar gyfer yr ysgol sydd wedi ei diffinio'n dda a'u deall a'i rhannu gan bawb. Mae wedi rhoi ystod o strategaethau yn eu lle sydd yn symud yr ysgol yn ei blaen. Mae'n derbyn cefnogaeth dda oddi wrth y dirprwy bennaeth, yr uwch dîm rheoli a'r staff cynnal. Mae llinellau cyfathrebu clir o fewn yr ysgol ac mae ethos tîm cryf yn datblygu.

Mae gan aelodau o'r corff llywodraethu wybodaeth dda am agweddau o ddarpariaeth a pherfformiad yr ysgol. Maent yn gefnogol iawn ac yn rhannu gweledigaeth yr ysgol ar gyfer datblygiad. Maent yn ymgymryd â'u dyletswyddau statudol yn effeithiol ac yn gynyddol ymwneud yn y broses hunan arfarnu.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i lawer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi ei sefydlu. Mae hyrwyddo'r cwricwlwm sgiliau yn datblygu'n dda a rhoddir sylw cynyddol i hybu medrau dwyieithog y disgyblion. Sefydlwyd cysylltiadau adeiladol gydag ysgolion eraill er mwyn cydgynllunio a rhannu arfer dda.

**Gwella ansawdd: Da**

Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o amrediad o ffynonellau i arfarnu ei pherfformiad gan ystyried safbwyntiau disgyblion, rhieni/gofalwyr, staff, llywodraethwyr a'r awdurdod lleol. Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn darparu darlun clir o gryfderau'r ysgol a'r ardaloedd sydd angen eu datblygu.

Mae ystod o weithgareddau monitro effeithiol yn eu lle ac maent yn cynnwys dadansoddi data, arsylwi gwersi ac arfarnu gwahanol agweddau o'r meysydd dysgu. Yn gyffredinol, caiff y wybodaeth a gesglir o hunan arfarnu ei defnyddio'n dda i

bennu'r blaenoriaethau yn y cynllun gwella ysgol.  Mae mentrau diweddar i godi safonau mewn llythrennedd ac ymestyn medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar y safonau a gyflawnir.

Mae cymunedau dysgu proffesiynol wedi eu sefydlu'n dda ynghyd â chysylltiadau effeithiol gydag ysgolion eraill o fewn y teulu a thu hwnt.  Mae'r pennaeth a'r staff yn aml yn cymryd rôl arweinyddol yn y mentrau hyn.  Mae'r rhwydwaith hwn o arfer proffesiynol yn gwneud cyfraniad pwysig i ddarpariaeth a datblygiad yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag amrediad o bartneriaid strategol sydd yn cael effaith fuddiol ar les a chyrhaeddiad y disgyblion.  Mae'r rhieni'n gefnogol iawn o'r ysgol ac yn cyfrannu tuag at lawer o weithgareddau, gan gynnwys codi arian i wella'r ddarpariaeth addysgol. Gwna'r ysgol ddefnydd rheolaidd o'r gymuned ac o adnoddau cymunedol.  Gwahoddir aelodau o'r gymuned i'r ysgol i weithio gyda'r disgyblion mewn amrywiaeth o weithgareddau.  Fel ysgol gymunedol, caiff ei chyfleusterau eu defnyddio’n rheolaidd gan grwpiau lleol.

Mae partneriaethau da yn bodoli gydag ystod o sefydliadau ac asiantaethau allanol, megis y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, i ddiwallu anghenion penodol disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gydag ysgolion eraill yn ei chlwstwr er mwyn ehangu profiadau dysgu'r disgyblion ac i rannu arfer dda.  Mae gan yr ysgol bartneriaeth agos gyda'r ysgol uwchradd leol.  Mae gweithgareddau pontio wedi eu sefydlu'n dda ac yn mynd i'r afael â'r cwricwlwm a lles y disgyblion.  Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o wasanaethau'r awdurdod lleol ar gyfer datblygu a chefnogi'r staff er mwyn codi safonau ymhellach.

**Rheoli adnoddau:  Digonol**

Yn gyffredinol, caiff adnoddau eu rheoli'n briodol.  Caiff yr ystod dda o adnoddau addysgu a dysgu a’r cyfleusterau eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu.  Mae digon o athrawon cymwysedig a staff cynnal.  Mae niferoedd y disgyblion yn uchel mewn llawer o'r dosbarthiadau ac ni chaiff y cyflenwad o staff addysgu o ansawdd da eu lleoli bob amser yn y dull mwyaf effeithiol.

Gwneir defnydd da o amser cynllunio, paratoi ac asesu i ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion.  Yn gyffredinol, caiff staff cynnal eu lleoli'n effeithiol a gwnânt gyfraniad gwerthfawr tuag at ddysgu'r disgyblion yn ogystal â chefnogi anghenion unigol penodol.  Caiff yr holl staff eu cefnogi'n dda gan system o ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Mae is-bwyllgor y corff llywodraethu yn gweithio'n effeithiol gyda'r pennaeth i reoli cyllideb yr ysgol.  Mae gweithdrefnau priodol er mwyn sicrhau caiff penderfyniadau gwariant eu cysylltu â blaenoriaethau’r cynllun gwella ysgol.  O ystyried deilliannau'r disgyblion ac agweddau o reoli adnoddau, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol, mae perfformiad y disgyblion yn y dangosydd pynciau craidd, y lefel disgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gyfunol, wedi amrywio'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, mae'r canlyniadau yn is na rhai'r teulu o ysgolion tebyg mewn dwy allan o'r pedair blynedd. Maent yn is na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a rhai Cymru gyfan mewn tair allan o'r pedair. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae canlyniadau'r disgyblion yn is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a rhai Cymru gyfan yn y rhan fwyaf o flynyddoedd.

Yn 2011, gwelir gwelliant arwyddocaol yn y canlyniadau gyda pherfformiad y disgyblion yn codi ym mhob un o'r pynciau craidd ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol. Maent yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion, yr awdurdod lleol a Chymru gyfan.

Tros gyfnod o bedair blynedd, mae'r canran o ddisgyblion sydd yn cyrraedd y lefel uwch, hynny yw lefel 3, yng nghyfnod allweddol 1 yn amrywio. Yn 2011, mae'n uwch na'r teulu o ysgolion, yr awdurdod lleol a Chymru mewn mathemateg a gwyddoniaeth ac yn cymharu'n ffafriol mewn Saesneg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r canran o ddisgyblion sydd yn cyrraedd lefel 5 mewn Saesneg, gwyddoniaeth a mathemateg wedi bod yn is na'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Yn 2011, mae’r canran yn uwch na'r teulu mewn Saesneg ac yn debyg yng ngwyddoniaeth.

O'i gymharu gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim, mae'r dangosydd pynciau craidd ar gyfer y ddau gyfnod allweddol yn rhoi'r ysgol yn y chwarteri isaf mewn tair o'r pedair blynedd. Yn 2011, mae’r canlyniadau yn rhoi'r ysgol yn y chwarter cyntaf.

Dengys data'r ysgol fod disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Yn 2011, yn gyffredinol, nid yw disgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â'r disgyblion hynny heb yr hawl i brydau am ddim. Mae'r deilliannau'n cymharu'n ffafriol gyda'r teulu o ysgolion.

Yng nghyfnod allweddol 1, nid oes unrhyw batrwm rheolaidd o wahaniaeth yng nghanlyniadau bechgyn a merched mewn mathemateg a gwyddoniaeth ond mae canlyniadau'r merched yn well na rhai'r bechgyn mewn Saesneg. Yng nghyfnod allweddol 2, yn gyffredinol, mae canlyniadau'r bechgyn yn debyg i rai'r merched mewn gwyddoniaeth ond maent yn is na chanlyniadau'r merched mewn mathemateg gyda gwahaniaeth mwy arwyddocaol mewn Saesneg.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i rieni/gofalwyr

Dychwelwyd 96 o holiaduron. Mae bron yr holl rieni'n datgan eu bod yn fodlon gyda'r ddarpariaeth ar gyfer eu plant. Credant fod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol a chânt eu hannog i fod yn iach ac ymarfer yn rheolaidd. Dywedant fod yr ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed ac i gymryd cyfrifoldeb. Maent yn cytuno fod y plant yn gwneud cynnydd da. Mae bron yr holl rieni yn datgan fod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol, fod safon yr addysgu'n dda a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Dywed llawer eu bod yn derbyn gwybodaeth reolaidd am gynnydd eu plant a'u bod yn deall gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio gyda chwynion. Maent bron i gyd yn datgan fod y staff yn trin yr holl blant gyda pharch a bod yr ysgol yn darparu ystod dda o weithgareddau gan gynnwys tripiau ac ymweliadau.

### Ymatebion i’r holiadur i ddisgyblion

Cwblhaodd 103 o'r disgyblion yr holiadur. Maent bron i gyd yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod pwy i droi at os ydynt yn poeni am unrhyw beth. Dywed llawer fod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw achosion o fwlian. Mae bron yr holl ddisgyblion yn datgan y cânt eu dysgu i fod yn iach a bod cyfleoedd iddynt ymgymryd ag ymarfer corff rheolaidd. Teimla llawer o'r disgyblion fod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith ysgol. Maent bron i gyd yn meddwl eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod yr athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Dywedant fod ganddynt ddigon o lyfrau a chyfarpar i wneud eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion o'r farn fod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi, amser chwarae ac amser cinio.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Brinley Jones | Arolygydd Tîm |
| Helen Adams | Arolygydd Lleyg |
| Edna Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Martin Morgan | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.